Docusign Envelope ID: DE3FE100-5E79-4448-BC25-B9F06785AF28

**GORCHYMYN SIR GAERFYRDDIN (YR C2078 LLANGYNOG)**
**(GWAHARDDIAD DROS DRO AR DRAFFIG TRWODD) 2025**

---

**GAN FOD** Cyngor Sir Caerfyrddin (y cyfeirir ato fel "y Cyngor" o hyn ymlaen), sef yr awdurdod priffyrdd ar gyfer y darn hwnnw o ffordd yr C2078 yn Llangynog yn Sir Gaerfyrddin o'i gyffordd â ffordd yr U2131 am bellter o 1.1 cilometr i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain, wedi'i fodloni y dylid cyfyngu ar y traffig ar y darn ffordd dan sylw yn sgil y gwaith y bwriedir ei wneud arno.

**YN AWR** gan hynny, mae'r Cyngor, gan arfer ei bwerau o dan Adran 14(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (fel y'i diwygiwyd) a'r holl bwerau galluogi eraill, trwy hyn, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

> Ni chaniateir i neb beri i unrhyw gerbyd deithio ar hyd y darn hwnnw o ffordd yr C2078 o'i gyffordd â ffordd yr U2131 am bellter o 1.1 cilometr i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain.

Bydd y Gorchymyn hwn yn dod i rym ar y Seithfed ar Hugain o Awst, Dwy Fil a Dau Ddeg Pump a gellir cyfeirio ato fel “Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (yr C2078 Llangynog) (Gwaharddiad Dros Dro ar Draffig Trwodd) 2025”.

19289

Rhoddwyd Sêl Gyffredin

**CYNGOR SIR CAERFYRDDIN**

ar y ddogfen hon

ar y 6ed o Awst 2025

ym mhresenoldeb:




Signed by:
Steven P Murphy
6947BF055CF64B2...

..........................................................................................

**Steven P Murphy**

**Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil**